



## **POLISI AMGYLCHEDDOL A CHYNALIADWYEDD**

### **Datganiad Polisi**

Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian Cyf yn ddarparwr dysgu yn y Gwaith, sy'n darparu Cymwysterau Prentisiaeth Fodern i ddysgwyr yn y gweithle. Mae'r Cwmni'n cydnabod pwysigrwydd y rôl sydd ganddo i'w chwarae yn yr amgylchedd wrth hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd. Bydd y Cwmni yn rheoli ei risgiau amgylcheddol mewn modd cynaliadwy, trwy gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, a mabwysiadu arfer gorau, lle bo hynny'n briodol. Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau'n cael effaith ar yr amgylchedd. Rydym wedi nodi mai ein heffeithiau allweddol ar yr amgylchedd yw ein hól troed carbon, trwy allyriadau cerbydau, a'r defnydd o bapur a gynhyrchir yn ein gweithgareddau gweithredol. Mae'r Cwmni wedi ymrwmo i ddiogelu'r amgylchedd trwy atal llygredd.

### **Amcanion**

- Sicrhau bod pob risg amgylcheddol yn cael ei hasesu a'i rheoli.
- Ceisio lleihau ein hól troed carbon ar yr amgylchedd trwy leihau milltiroedd busnes a deithir, lle bo hynny'n ymarferol.
- Lleihau'r defnydd o bapur er mwyn lleihau ein gwastraff a gynhyrchir, lleihau datgoedwigo yn fyd-eang ac atal llygredd cemegolion a ddefnyddir wrth gynhyrchu papur, ac i warchod adnoddau dŵr byd-eang.
- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol, ac ymrwmo i broses o wella'n barhaus mewn perthynas â'n hagweddau amgylcheddol.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith gweithwyr, dysgwyr a'r gymuned ehangach.
- Gwerthuso perfformiad y Cwmni yn barhaus wrth weithredu'r amcanion a nodwyd, ac wrth gydymffurfio â'r holl reoliadau cymwys.
- Adolygu'r polisi hwn yn flynyddol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth ac yn cwrdd ag agweddau amgylcheddol y Cwmni.

**Llofnod:**

**Arwyn Watkins OBE**  
**Rheolwr Gyfarwyddwr**

**Dyddiad: Medi 2020**

**Dyddiad Adolygu: Medi 2021**